# Ceisiadau Meithrin

Mae ceisiadau am leoedd mewn Ysgolion Meithrin bellach ar agor ar gyfer derbyn ym mis Medi 2026.

Y dyddiad cau i wneud cais am le mewn Ysgol Feithrin yw **Dydd Llun, 16 Chwefror 2026**. Gallwch wneud cais ar-lein yn

**CYMRAEG**
Ewch i www.wrecsam.gov.uk
neu sganiwch y côd QR

**ENGLISH**
Visit www.wrexham.gov.uk
or scan the QR Code

Os ydych wedi gwneud cais am le Addysg Blynyddoedd Cynnar wedi'i ariannu i ddechrau ym mis Ionawr neu Ebrill 2026, mae'n bwysig nodi **nad** yw hyn yr un peth â chais Meithrin. **Mae'r lle addysg gynnar 10 awr wedi'i ariannu ar gyfer tymor y gwanwyn a/neu'r haf yn unig a bydd yn dod i ben ym mis Gorffennaf.** Bydd rhieni sydd wedi gwneud cais am le ym mis Ionawr eisoes wedi derbyn eu llythyr ar gyfer ymateb. Bydd rhieni a wnaeth gais am le ym mis Ebrill yn derbyn eu llythyr ymateb ar 19 Chwefror.

Nid yw sicrhau lle mewn lleoliad blynyddoedd cynnar ar gyfer tymor y gwanwyn neu'r haf yn gwarantu lle i chi yn yr un lleoliad ar gyfer y dosbarth Meithrin sy'n dechrau ym mis Medi. Rhaid i chi wneud cais ar wahân ar gyfer y dosbarth Meithrin os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, ac mae'r ceisiadau hyn yn cael eu prosesu'n unol â'n polisi derbyn.

Os cewch unrhyw anawsterau wrth wneud cais, e-bostiwch ni yn admissions@wrexham.gov.uk neu ffoniwch 01978 298991.